

Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio



Gwella'r Defnydd o Laswellt

Egwyddorion Rheoli Pori;

- Mwyhau cyfraddau twf porfeydd
- Cynnal ansawdd porfa
- Ymgynraedd at ddefnydd uchel o borfeydd
- Sicrhau gorchuddion cyfartalog ar adegau pwysig yn y flwyddyn
- Bwydo gwartheg yn ôl eu hanghenion

Beth yw porfa o ansawdd uchel?

Mae porfa o ansawdd uchel yn wyrdd ac yn ddeiliog a nemor ddim pennau hadau na sylwedd marw. Sylwedd marw sy'n bennaf cyfrifol am ddifetha ansawdd porfeydd. Mae gan borfa o ansawdd uchel:

- Lai nag 20% o sylwedd marw ar waelod y tir glas
- Llai na 10% o bennau hadau
- Rhagor na 60-70% o ddeunydd deiliog, gwyrdd
- Ac mae porfa o'r ansawdd uchaf yn meddu ar ragor nag 80% o ddail gwyrdd.

Pam mesur glaswellt?

Mae glaswellt yn brif ffynhonnell maetholion i anifeiliaid cnoi cil. Dyma'r ffynhonnell fwyd rataf sydd i gael, ac mae'n rhatach rhoi gwartheg i bori ar wair yn hytrach na'i silweirio. Serch hynny, mae'n bwysig sicrhau bod anifeiliaid yn cael digon o laswellt i'w diwallu fel eu bod yn gallu cyrraedd eu potensial cynhyrchu llawn. Rhaid felly wybod yn union faint o laswellt sydd i gael fel y gellir cymryd hynny i ystyriaeth wrth wneud unrhyw gyfrifiadau.

Mesur Glaswellt

Mesurir glaswellt mewn kgDM/ha. Isod ceir rhestr o wahanol ddulliau o fesur glaswellt.

Torri, Sychu a Phwyso

Manteision – Cywir ond mae'n rhaid defnyddio'r un dechneg lladd gwair.

Anfanteision – Dim ond yn rhoi darlleniad ar gyfer ardal fechan – mae angen sampl cynrychiolaidd.

Mesurydd Plât (Rising Plate Meter - RPM)

Manteision – Cymharol gyflym; mae'n gofyn am gerdded o amgylch y fferm a gall hyfforddi'r gweithiwr i ddatblygu rhyw deimlad greddfodol am ansawdd glaswellt

Anfanteision – Gall fod yn rhy optimistaidd yn yr haf



Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif H1 - Ebrill 2011

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.



Drwy ddefnyddio'r llygaid

Manteision– Rhwydd a chyflym

Anfanteision - Gall fod yn gamarweiniol os nad oes gennych lygaid da. Mae'n well dechrau â dull arall er mwyn gwella'r dechneg hon.

→

Y Mesurydd Plât

Mae'r teclyn hwn yn gweithio drwy fesur uchder cywasgedig y glaswellt. Mae un clic ar y mesurydd yn gyfystyr ag uchder cyfartalog o 0.5cm. Er enghraifft, mae darlleniad 8 clic yn gyfystyr ag uchder cyfartalog 4cm.

Er mwyn newid yr uchder i gilomedrau o sylwedd sych, defnyddir hafaliad arbennig.

Yr Hafaliad RPM

'Uchder cywasgedig cyfartalog y glaswellt' x 125 + 640 = KgDM/ha

Lle mae'r Uchder Cywasgedig Cyfartalog = Darlleniadau o'r RPM

125 = y lluosydd

640 = yr adydd

Defnyddio Mesurydd Plât

Mae dau fath o fesurydd plât ar gael; mesurydd llaw neu electronig.

Mesurydd Llaw

Cofnodwch y darlleniad cychwynnol a chymerwch o leiaf 30 o gywasgiadau (mwy os ydych mewn cae mawr) a chofnodwch y darlleniad olaf. Tynnwch y darlleniad cychwynnol o'r darlleniad olaf a rhannwch gyda nifer y cywasgiadau. Bydd hyn yn rhoi'r uchder cywasgedig cyfartalog; cymhwyswch yr hafaliad RPM i drosi i KgDM/ha.

Mesurydd Electronig

Mae'r fformiwla eisoes yng nghof y peiriant ac mae'n cymryd darlleniadau wrth i chi wasgu'r mesurydd plât i'r glaswellt.

Techneg y Defnyddiwr

Techneg dda fyddai mynd ati groes-gongl ar draws y cae gan wasgu'r mesurydd plât bob yn ail gam. Mae'n bwysig osgoi manau o amgylch cafnau dwr a chlwydi.

Achosion anghywirdeb

- Rholio'r mesurydd plât
- Gosod y teclyn drwy edrych ar dwmpathau – bydd y llaw yn dilyn y llygaid
- Defnyddio'r mesurydd plât fel ffon h.y. rhoi pwysau arno - bydd gan y plât fâs ychwanegol gan gofnodi'r glaswellt yn anghywir.

Casgliadau

- Mynd allan i'r caeau i weld pa fath o wair sydd gennych.
- Dewiswch ddull mesur yr ydych yn hapus gydag o.
- Mesur yn rheolaidd i gael darlun clir.
- Bod yn gyson gyda'ch techneg mesur.
- Defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei chasglu.